# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**HAF 2022**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 6**
**1020U60-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TAG**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 6**

**HAF 2022**

**Adran A – Defnyddio Iaith**

1. (i) Darllenwch yr hysbyseb isod sy'n tynnu sylw at Wythnos Ymchwil Canser. Rydych chi a'ch ffrindiau yn y chweched dosbarth yn awyddus i helpu yn ystod yr wythnos.

Ysgrifennwch e-bost at Jayne Hughes yn cynnig eich help ac yn dweud **sut** gallwch chi helpu. (tua **150** o eiriau) [20]

Wrth ysgrifennu'r e-bost dylech chi:
- gyflwyno'ch hun (enw, oed, ysgol)
- dweud ble welsoch chi'r hysbyseb a phryd
- mynegi barn am y syniad o gael Wythnos Ymchwil Canserr
- cyfeirio at y noson agoriadol
- rhoi eich rhesymau dros gynnig eich help
- gofyn am fwy o wybodaeth – e.e. am y gwobrau raffl
- gorffen yr e-bost

© WJEC CBAC Cyf.

| MARC | AA3 | |
|---|---|---|
| **16-20** | **BAND 1**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb i bob agwedd o'r cwestiwn yn gydlynol ac yn effeithiol gan ddangos gwreiddioldeb<br>• adnabod y blaenoriaethau arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth<br>• trefnu ac addasu'r gwaith mewn modd sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r pwrpas a'r gynulleidfa ac yn creu effaith | **BAND 1**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa<br>• defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• arddangos gafael sicr iawn ar ramadeg, treigladau a berfau |
| **13-15** | **BAND 2**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb i'r rhan fwyaf o elfennau'r cwestiwn yn hyderus gan ddangos gwreiddioldeb<br>• adnabod y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a'r manylion arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth<br>• trefnu ac addasu'r gwaith mewn modd sydd yn briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa | **BAND 2**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio ystod eang o eirfa'n gywir<br>• defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson<br>• defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg, treigladau a berfau. |
| **10-12** | **BAND 3**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb i brif elfennau'r cwestiwn yn effeithiol gan ddangos peth gwreiddioldeb<br>• adnabod nifer o'r blaenoriaethau a'r manylion arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth<br>• trefnu ymateb sydd yn briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa | **BAND 3**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• arddangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa<br>• arddangos gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan tra mae'r mwyafrif o'r treigladau a'r berfau'n gywir<br>• defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig |
| **7-9** | **BAND 4**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb yn syml i rai o elfennau'r cwestiwn<br>• adnabod rhai o'r blaenoriaethau wrth ymateb i'r wybodaeth<br>• gwneud peth ymgais i drefnu ymateb sy'n briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa | **BAND 4**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio peth ystod o eirfa<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa<br>• arddangos gafael eitha anghyson ar ramadeg er bod y treigladau a'r berfau'n eithaf cywir<br>• amrywio'r brawddegau rhywfaint |
| **4-6** | **BAND 5**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb yn fyr i nifer gyfyngedig o elfennau'r cwestiwn<br>• ymateb i'r manylion symlaf yn unig<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o'r pwrpas | **BAND 5**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a brawddegau<br>• arddangos gafael gyfyngedig ar ramadeg, treigladau a berfau |
| **0-3** | Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | |

(ii) Mae eich ffrind, sy'n dysgu Cymraeg, wedi gofyn am eich help i ysgrifennu blog yn sôn am ymweliad â Wakestock gyda'i ffrindiau. Mae eich ffrind wedi gofyn am eich help i ddewis ffurf gywir y geiriau mewn cromfachau. Mae pob un mewn print **trwm** ac mae hi wedi rhifo pob un. [10]

| **Cynllun Marcio**<br>**1 marc am bob ateb cywir = 10 marc** | |
|---|---|
| **1.** | **Rydw i'n** |
| **2.** | **Ŵyl** |
| **3.** | **Mae'n** |
| **4.** | **Bydda i'n** |
| **5.** | **ac** |
| **6.** | **ohonon** |
| **7.** | **dydy** |
| **8.** | **bethau** |
| **9.** | **gwneud** |
| **10.** | **ar** |

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B – Y Stori Fer**

| MARC | AA2 (i) (ii) (iii) | MARC | AA3 (i) (ii) (iii) |
|---|---|---|---|
| **(i) (ii)<br>8-10<br>(iii)<br>24-30** | **BAND 1**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos gwybodaeth eang o'r testun a dealltwriaeth manwl-gywir o'r cysyniadau<br>• llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol, treiddgar ac arddangos aeddfedrwydd barn<br>• defnyddio dyfyniadau'n gywir ac yn bwrpasol<br>• **croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen** | **(i) (ii)<br>5<br>(iii)<br>8-10** | **BAND 1**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir<br>• saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn sensitif yn ôl yr angen<br>• arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **(i) (ii)<br>7<br>(iii)<br>21-23** | **BAND 2**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos gwybodaeth fanwl o'r testun a'r cysyniadau<br>• llunio ymateb personol i'r testun yn ddeallus ac yn ddychmygus gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol<br>• datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau'n gywir a pherthnasol<br>• **croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen** | **(i) (ii)<br>4<br>(iii)<br>7** | **BAND 2**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio'u gwaith yn fanwl<br>• rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn briodol yn ôl yr angen<br>• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |
| **(i) (ii)<br>6<br>(iii)<br>15-20** | **BAND 3**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos gwybodaeth helaeth o'r testun a'r cysyniadau<br>• llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol gan amlaf<br>• datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau perthnasol<br>• **croesgyfeirio rhwng rhai agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen** | **(i) (ii)<br>3<br>(iii)<br>5-6** | **BAND 3**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir<br>• saernïo'u gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen |
| **(i) (ii)<br>5<br>(iii)<br>12-14** | **BAND 4**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos gwybodaeth briodol o'r testun a'r cysyniadau<br>• llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon digonol<br>• datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus ar adegau'n unig<br>• dyfynnu o'r testun yn achlysurol<br>• **cyfeirio at rai o wahanol agweddau'r pwnc** | **(i) (ii)<br>2<br>(iii)<br>4** | **BAND 4**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn eitha clir a chywir<br>• cynllunio'u gwaith yn eitha gofalus<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno'u gwaith<br>• arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen |

© WJEC CBAC Cyf.

| MARC | AA2 (i) (ii) (iii) | MARC | AA3 (i) (ii) (iii) |
|---|---|---|---|
| **(i) (ii)**<br>**4**<br>**(iii)**<br>**7-11** | **BAND 5**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos peth gwybodaeth o gynnwys y testun<br>• llunio ymateb personol gan gyflwyno dadleuon yn syml<br>• datblygu syniadau'n weddol drefnus ar adegau<br>• dyfynnu o'r testun yn achlysurol<br>• **diffyg cyfeirio at wahanol agweddau'r pwnc** | **(i) (ii)**<br>**1**<br>**(iii)**<br>**2-3** | **BAND 5**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan<br>• cynllunio'u gwaith yn ofalus ar adegau'n unig<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair wrth gyflwyno'u gwaith<br>• defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen |
| **(i) (ii)**<br>**0-3**<br>**(iii)**<br>**0-6** | **BAND 6**<br>• Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | **(i) (ii)**<br>**0**<br>**(iii)**<br>**1** | **BAND 6**<br>• Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig |

© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiynau penodol y Stori Fer**

2. (i) Yn y paragraffau isod o'r stori fer 'Angladd yn y Wlad' gan Ioan Kidd, mae'r Adroddwraig yn mynd gyda'i theulu i angladd Reid, mab ei ffrind Martha.

Dychmygwch eich bod chi yn yr angladd hefyd. Ysgrifennwch **lythyr** at ffrind yn disgrifio'r angladd ac yn rhoi eich ymateb chi i'r digwyddiadau a'r creulondeb tuag at y bobl ddu. (Tua **100** o eiriau) [15]

**Yn eich llythyr gallech chi:**
- esbonio ble roedd yr angladd a sut roedd Reid wedi marw
- sôn am y bobl oedd yn yr angladd
- cyfeirio at y cyfeillgarwch rhwng Martha a'r Adroddwraig
- disgrifio creulondeb y milwyr a'r plismyn
- disgrifio sut roedd y bobl ddu'n teimlo ac yn ymateb i'r trwbl
- cynnwys eich ymateb personol chi

| Gellir disgwyl y math yma o gynnwys: |
| --- |
| **Disgwyliadau GENERIC**<br>• **dilyn confensiwn llythyr gan osod y llythyr allan yn gywir**<br>• **agor a chloi yn briodol**<br>• **naws bersonol – 'ti' efallai yn hytrach na 'chi'**<br>• **paragraffu**<br>• **cwestiynau rhethregol**<br>• **mynegi barn gan gefnogi'r farn honno trwy gydol y llythyr**<br><br>**PENODOL**<br>• **Newyddion personol cyffredinol / Holi am hynt a helynt y ffrind**<br>• **Sôn am fynychu'r angladd gyda manylion – angladd pwy, ble, pryd, gyda phwy, sut bu farw Reid**<br>• **Disgrifio'r angladd – maint, y bobl oedd yno, trefnu yr angladd (areithiau/emyn y bobl ddu etc)**<br>• **Cyfeirio'n benodol at Martha, Yr Adroddwraig a'i theulu a pham roedden nhw yno**<br>• **Y berthynas rhwng Yr Adroddwraig a Martha a'u hymateb i'w gilydd**<br>• **Disgrifio'r ymosodiad sydyn a dirybudd, rôl y milwyr a'r plismyn, ymateb y bobl ddu**<br>• **Paragraff i gloi sy'n cloriannu teimladau'r person sy'n ysgrifennu'r llythyr** |

(ii) Yn y paragraffau isod mae'r awdur yn defnyddio:
**ailadrodd**
**rhestru**
**hyd y brawddegau**

Rhowch enghreifftiau o'r technegau hyn gan ddweud ym mha ffordd maen nhw'n ychwanegu at yr emosiwn yn y paragraffau. (Tua **100** o eiriau) [15]

| Y Dechneg | | Effaith ar lwyddiant y darn |
|---|---|---|
| **ailadrodd** | | |
| 1. | Aethon ni ...<br>**+**<br>yn un **teulu** mawr, yn **deulu** cyfan | Pwysleisio'r agosrwydd a'r undod sy'n bodoli o fewn y teulu ac hefyd y gefnogaeth maen nhw'n ei roi i Martha yn ei galar o 'golli mab' |
| 2. | Mae'n anodd ... | Tynnu sylw at y ffaith nad ydy'r Adroddwraig yn gallu credu sut mae pethau wedi dirywio dros y bymtheg mlynedd ers geni Reid a Duma a pha mor anodd ydy dygymod â sefyllfa 'r bobl ddu erbyn hyn. |
| 3. | arfog | Ansoddair sy'n achosi tensiwn ac yn darogan yr helynt sy'n mynd i dorri allan yn yr angladd |
| 4. | fy ffrind | Pwysleisio agosrwydd Yr Adroddwraig a Martha ac hefyd yn ychwanegu at y tristwch mae'r Adoddwraig yn ei deimlo oherwydd galar ei ffrind |
| 5. | angladd/fynwent | Mae'r awdur yn ailadrodd 'angladd' a 'mynwent' er mwyn atgoffa'r darllenydd mai digwyddiad trist sy'n deilwng o barch sy'n cael ei gynnal a hyn yn gwrthgyferbynnu gyda chreulondeb a diffyg parch yr helynt sy'n dechrau 'heb reswm' ac 'heb rybudd'. |
| **6.** | **heb** reswm, **heb** rybudd | Gair negyddol sydd yn pwysleisio pa mor sydyn y dechreuodd yr helynt ac hefyd y sioc roedd y bobl yn ei deimlo wrth i'r helynt darfu ar awyrgylch drist yr angladd. |
| **rhestru** | | |
| 1. | rhai i wylio, rhai wylo a rhai i gladdu eu dicter | Pwysleisio bod rhesymau amrywiol a gwahanol iawn dros fynychu'r Angladd yn y Wlad |
| 2. | yn syllu, yn chwerthin, yn gwawdio | Geiriau cas a chreulon sy'n tynnu sylw at agwedd y milwyr a'r plismyn at y bobl ddu; a Martha'n arbennig yn ei phrofedigaeth. |
| 3. | trwy areithiau a thrwy emyn y bobl ddu | Tanlinellu'r ffaith bod Yr Adroddwraig yn fodlon sefyll 'braich ym mraich' gyda'i ffrind Martha drwy gyfnodau da a drwg |
| 4. | y saethu, y gweiddi, y sgrechian y cyfarth | Geiriau cas a thywyll sydd yn cryfhau'r ofn a'r hysteria oedd yn perthyn i ddigwyddiad/ ymosodiad mor annisgwyl yn ystod digwyddiad o'r fath. |

© WJEC CBAC Cyf.

**hyd y brawddegau**

Yn y paragraffau hyn mae Ioan Kidd yn disgrifio angladd bachgen ifanc 15 oed a'r bwriad yw creu naws arbennig i gydfynd a'r digwydd trist yma. Mae brawddegau hir yn addas oherwydd iddynt arafu'r naratif gan ychwanegu'r tristwch anghenrheidiol i'r paragraffau. Mae'r galar a'r emosiwn mae'r Adroddwraig yn eu teimlo'n cael eu cyfleu gan rhythm y brawddegau hir wrth iddi 'sefyll fraich ym mraich trwy gydol y gladdedigaeth, trwy'r areithiau a thrwy emyn y bobl ddu'. Gwelir hefyd bod brawddegau hir yn galluogi'r awdur i gynnwys y dechneg o ailadrodd i bwysleisio'r tristwch a'r galar ac ar yr un pryd ychwanegu at y tyndra yn y dorf.
Yn bennaf brawddegau hir sydd i'r paragraffau ac felly mae unrhyw frawddegau byr yn sefyll allan ac yn tynnu sylw at y emosiwn a'r digwyddiadau pwysig mae'r awdur am eu pwysleisio wrthym.
e.e. 'Mab Martha fy ffrind.'
Yn yr ymadrodd byr yma gwelwn mai agosrwydd teulu a ffrindiau sy'n bwysig er mwyn dod â'r darllenydd yn ôl at brif bwrpas y paragraffau sef cyfleu emosiwn a thristwch y diwrnod i Martha, ei theulu a'i ffrindiau. Ceir yr un ergyd ysgyfwol yn y frawddeg 'Dwy fenyw ddu ac un wedi colli ei mab.'
Yn y paragraff olaf mae Ioan Kidd eisiau cyfleu'r sefyllfa erchyll sy'n agor pan mae'r milwyr yn ruthro ar y dyrfa ac mae'r awdur yn cymharu gyda dwyster yr angladd. Yma eto brawddegau byr sy'n gweddu er mwyn i'r darllenydd unieithu gyda'r galarwyr.
e.e.
Ac yna fe ddechreuodd, heb reswm, heb rybudd. Daeth y saethu, y gweiddi, y sgrechian, y cyfarth. Yma mae'r brawddegau byr yn tynnu sylw at y geiriau pwysig sy'n cynrychioli'r sioc, y casineb a'r creulondeb ac ymateb y bobl ddu – 'rheswm', 'rhybudd', saethu', 'gweiddi', 'sgrechian'.
Mae cyfuniad Ioan Kidd o frawddegau hir a brawddegau byr yn llwyddo i weithio mewn undod i wrthgyferbynnu dwy elfen bwysicaf y stori sef tristwch a dwyster yr angladd a sioc a chreulondeb ymosodiad annisgwyl y milwyr a'r plismyn ar y bobl ddu yn eu galar.

(iii) Un o themâu y paragraffau isod yw **teulu** a gwelwn pa mor bwysig yw ei theulu a'i ffrindiau i'r Adroddwraig. Manylwch ar y thema **pwysigrwydd y teulu** trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wyliwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema **a'u cysylltu gyda'r paragraffau isod**. (Cwestiwn synoptig – tua **300** o eiriau) [40]

Aethon ni i gyd i'r wlad y prynhawn hwnnw. Benjamin a minnau a'r plant. Do, fe ddaeth y plant – Duma, Oupa a Mojalefa bach. A daeth Theresa, fy chwaer a Frances ei gŵr. Aethon ni i gyd i'r wlad y prynhawn hwnnw yn un teulu mawr, yn deulu cyfan, i'r angladd yn y wlad. Mynd er mwyn Martha wnaethon ni ac er parch i Reid, ei mab. Fe'i lladdwyd gan y milwyr ac yntau ond yn bymtheg oed, yr un oedran â Duma fy mhlentyn hyna. Mae'n anodd meddwl ei fod e'n farw. Mae'n anodd meddwl nad oes modd osgoi'r gyflafan. Mae'n anodd dychmygu'r bwled yn treiddio i'w ymennydd a'r gwaed coch yn araf lifo ar hyd ei dalcen du. Bu farw ar fympwy'r heliwr fel carw yn ceisio dianc rhag y dryll. Mab Martha, fy ffrind.

*****************************************************

Roedd hi'n angladd fwy na'r cyffredin, a hynny mewn cyfnod pan oedd pob angladd yn fawr. Wrth i ni gyrraedd y fynwent ar y bryn gallwn weld y lluoedd oedd wedi dod ynghyd, rhai i wylio, rhai i wylo a rhai i gladdu eu dicter a'u rhwystredigaeth yn y pridd. Ac o gwmpas y fynwent gallwn weld y lluoedd eraill yn ein herio a'n pryfocio a'u diffyg parch. Milwyr arfog mewn cerbydau arfog, plismyn arfog a'u cŵn, yn syllu, yn chwerthin, yn gwawdio â holl hunanhyder eu hil.

*****************************************************

Ac o'r diwedd fe'i gwelais. Gwelais fy ffrind yn gwarchod yr arch. Safai'n unig, yn ddifynegiant, fel ynys ynghanol môr o donnau du, yn ymgorfforiad o gyflwr De Affrica. Gafaelodd yn fy mraich a diflannodd fy nghywilydd. Ac felly y safon ni'n dwy, fraich ym mraich drwy gydol y gladdedigaeth, trwy'r areithiau, a thrwy emyn y bobl ddu. Dwy fenyw ddu ac un wedi colli mab.

*****************************************************

Ac yna fe ddechreuodd, heb reswm, heb rybudd. Daeth y saethu, y gweiddi, y sgrechian, y cyfarth. Daeth milwyr, a daeth y plismyn a'u cŵn. Fe ddaethon nhw o bobman dros furiau'r fynwent, gan ruthro tuag atom. A gwasgarodd fy mhobl fel haid o wartheg yn ffoi rhag y bwled, y *sjambok* a'r nwy.

**Thema:**

Pwysigrwydd y teulu

Hefyd: Yr Ymwelydd
Solomon a Gaenor
Siwan Hedd Wyn
Gail fu farw etc ...

### Angladd yn y Wlad
Ioan Kidd

Trwy gydol y darn mae'r Adroddwraig yn cyfeirio at 'y teulu', fy ffrind', fy mhobl'. Mae cyfeiriad cyson at 'plant', 'chwaer', 'meibion'. Yn amlwg mae'r teulu estynedig yn bwysig iddi – 'y teulu cyfan'. Mae hi'n cyfeirio at yr agosrwydd rhyngddi hi â Martha gan sôn am y ffordd roeddynt yn cael cryfder wrth iddynt gyffwrdd â'i gilydd. 'Gafaelodd yn fy mraich' 'Safon mraich ym mraich' sydd unwaith eto'n pwysleisio'r agosrwydd sydd fel 'dwy chwaer'.

### Trŵ Lyf
Marlyn Samuel

Mae'r teulu yr un mor bwysig i Nain Heledd yn y stori fer *Trŵ Lyf* ag ydy o'n y darn. Mae'n amlwg bod Heledd yn ymwybodol o hyn ac mae hi'n parchu ei nain ac yn mwynhau ei chwmni. 'Cês dach chi, Nain!'. Cawn ein hatgoffa o'r pwyslais sydd ar y teulu yn *Angladd yn y Wlad* ymhob agwedd o'r stori fer *Trŵ Lyf* gan gynnwys diwedd y stori wrth i taid a nain Heledd arddangos y cariad sy'n parhau rhyngddynt ar ôl cymaint o flynyddoedd o fywyd priodasol.

### Crash
Sera Moore Williams

Dim ond o bersbectif Els, Wes a Rhys rydym yn gweld cyflwr yr teulu yn *Crash*. Yn ôl Rhys, fel yn y darn, gan Ioan Kidd mae'r teulu'n bwysig. Mae o'n agos iawn at ei dad ac yn ei edmygu'n fawr. Mae teulu Els yn ceisio ei chefnogi ac yn awyddus iddi lwyddo. Fodd bynnag, mae hi'n gwrthryfela ac mae hi'n dweud nad ydy'r teulu'n bwysig iddi ac mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â safiad cymeriadau *Angladd yn y Wlad*. Mae Els yn honni bod ei theulu fel teulu Wes – yn anghefnogol.

### Patagonia
Y ffilm

Yn debyg i'r Adroddwraig mae teulu Cerys yn bwysig iddi. Mae hi'n hen a bron yn ddall ond eto mae hi'n trithio o Batagonia i chwilio am ei gwreiddiau a hanes ei theulu. Ar y llaw arall, yn y ffilm mae Gwen yn hunanol fel Els ac yn gwbl wahanol i Martha a'r Adroddwraig. Mae hi wedi difetha unrhyw obaith o fwynhau bywyd teuluol hapus a chefnogol oherwydd mae hi'n anonest ac yn anffyddlon i Rhys. Mae hi'n teimlo bod pawb a phopeth yn ei herbyn.

### Beth os?
Llio Mai Hughes

Cawn yr argraff nad yw'r uned deuluol yn bwysig i rieni Ceri yn y stori fer *Beth os?*. Mae ei pherthynas gyda Gareth wedi chwalu ar ôl pum mlynedd ond er i'w rhieni ei helpu i lanhau'r fflat dydyn nhw ddim yn dangos yr un gefnogaeth â'r Adroddwraig oherwydd maen nhw'n bwriadu treulio'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn Efrog Newydd gan adael Ceri ar ei phen ei hun dros gyfnod pan mae cefnogaeth a chwmni teuluol mor bwysig.



© WJEC CBAC Cyf.